

Cyngor Sir Caerfyrddin Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2019-2020

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd a enwir isod am y cyfnod o fis Mai 2019 tan fis Mai 2020 (Blwyddyn y Cyngor). Fe'i darperir er gwybodaeth i etholwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad yw barn y Cynghorydd ac nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor Sir Caerfyrddin o reidrwydd.

Y Cynghorydd: Kevin Madge	Adran Etholiadol: Y Garnant
----------------------------------	------------------------------------

Rhan 1: Rôl a Chyfrifoldebau
<i>Pwyllgorau'r Cyngor:</i>
Cyngor Sir
Y Pwyllgor Craffu – Polisi ac Adnoddau
Pwyllgor Penodi A – Cyfarwyddwyr
Y Pwyllgor Cynllunio
<i>Cofnod Presenoldeb –</i> https://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/mqAttendance.aspx?UID=180

Rhan 2: Gweithgareddau Etholaeth
<p>Yn ystod blwyddyn ddiwethaf y Cyngor rwyf wedi cynnal 16 cymhorthfa yn Ysgol y Bedol a Chlwb y Garnant.</p> <p>Yn ystod blwyddyn ddiwethaf y Cyngor rwyf wedi gwneud 97 o ymholiadau ynghylch ward y Garnant, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• Arogl o Safle Tirlenwi dros ward y Garnant• Bolard – cyffordd Maesyrendre, y Garnant• Gorchmynion Traffig ar gyfer gwaith diogelwch ar y ffyrdd, y Garnant• Datblygiad Rhes yr Arcêd - ffens• Draeniau wedi'u blocio, Heol Cwmaman• Carafán sefydlog, Penyrallt, y Garnant• Rhentu Canolfan Ddydd Cwmaman, y Garnant• Adfer a chymryd drosodd Golwg yr Aman• Baw cŵn - Golwg yr Aman• Glanhau waliau ym Maesybedol a Maesyrendre, y Garnant• Cysgodfa newydd i ardd Canolfan Deulu'r Garnant• Croesfan Pelican - Heol Cwmaman, y Garnant.• Palmant yn Heol Ysgol Newydd, y Garnant• Camau gorfodi o ran Neuadd y Gweithwyr, y Garnant

Yn 2019-20, cefais y fraint o fod yn Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin a dathlais 40 mlynedd fel Cynghorydd. Yn fy mlwyddyn yn y swydd, mynychais dros 220 o ddigwyddiadau ledled y sir, gan godi cyfanswm o £4,000 i'r Banciau Bwyd yn Rhydaman, Llanelli a Chaerfyrddin.

Yn 2019, cefnogais y cais cynllunio am "Eco-bentref" gan Glwb Golff y Garnant, gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Tref Cwmaman, sy'n creu swyddi newydd, yn gweithio gyda sefydliadau partner yn y gymuned a'r bobl ifanc, ac yn cynnig llesiant economaidd lleol.

Ers mis Mawrth eleni, mewn ymateb i'r argyfwng Coronafeirws yn ardal Dyffryn Aman, sefydlais gynllun â'r nod o ddarparu prydu poeth a chyswllt rheolaidd â phobl i drigolion a oedd yn hunanwarchod. Bûm yn gweithio'n agos hefyd gyda'r Swyddog Datblygu Cymunedol i sefydlu grwpiau gwirfoddol i helpu i fynd i'r afael ag anghenion yn amrywio o gasglu presgripsiynau i alwadau lles ledled Dyffryn Aman.

Gan gyfeirio at y gwasanaeth Pryd ar Glud, rwyf yn falch o allu dweud ei fod wedi bod yn llwyddiannus iawn a bod 93 o unigolion wedi elwa dros y 7 mis diwethaf. Diolch i'r holl wirfoddolwyr a staff sydd wedi galluogi'r gwasanaeth hanfodol hwn i gael ei gynnal.

Rhan 3: Cyrff Llywodraethu Ysgolion

Ysgol y Bedol

Rhan 4: Cynrychiolaeth Cyrff Allanol

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Rhan 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

Eleni, fi yw Cadeirydd Canolfan Deulu'r Garnant, sy'n gweithio i gael canopi pob tywydd newydd yn yr ardd gymunedol er mwyn i blant chwarae y tu allan mewn tywydd gwael drwy gydol y flwyddyn gyda hwb ariannol o £9,000 gan Gronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt y Betws.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Tref Cwmaman a Chyngor Sir Caerfyrddin i drosglwyddo manau chwarae, manau awyr agored eraill ac asedau yn y gymuned i'r Cyngor Tref. Mae hyn yn rhoi perchnogaeth a rheolaeth dros yr asedau hyn yn nes at y gymuned y maent yn ei gwasanaethu, nawr ac i'r dyfodol.

Rwyf yn ymwneud â'r sefydliadau canlynol yn y gymuned, ac wedi gweithio gyda hwy dros y flwyddyn ddiwethaf:

- Cadeirydd Cangen y Garnant o'r Lleng Brydeinig Frenhinol ers 2003
- Ysgrifennydd Pabi Cangen y Garnant o'r Lleng ers 2011
- Cadeirydd Pryd ar Glud Cwmaman ers 1996
- Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Canolfan Deulu'r Garnant ers 2000
- Aelod o Gyfeillion Ysbyty Dyffryn Aman ers 2008
- Cadeirydd Pwyllgor Gweithredu Ysbyty Dyffryn Aman ers 2018
- Aelod o Gorff Llywodraethu Eglwys y Garnant a Warden yr Eglwys ers 2015
- Aelod o Gyngor Tref Cwmaman ers 1979

Llofnodwyd gan y Cynghorydd: K Madge

Dyddiad: 25.10.20